**Atodiad C1** **CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014 – 2017**

| | |
|---|---|
| **Teitl y syniad** | **P7** Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched Bangor |
| **Adran** | Plant a Chefnogi Teuluoedd |

**Beth yw'r cynnig?**

Yn hanesyddol mae Gwasanaeth Plant Gwynedd wedi cyfrannu arian drwy gytundeb lefel gwasanaeth i Cymorth i Ferched Bangor ers nifer fawr o flynyddoedd. Yn wreiddiol roedd y cyfraniad y sylweddol uwch na'r hyn sydd yn cael ei ddyrannu yn gyfredol a chytunwyd i gwtogi ar yr arian rhyw 5 mlynedd yn ôl. Ers hynny mae'r arian sydd yn cael ei gyfrannu yn talu am weithiwr plant rhan amser sydd yn rhoi gwasanaeth yn y gymuned i blant unigol ac yn gwneud gwaith codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol.

Ar hyn o bryd mae'r swydd yn wag ym Mangor.

Erbyn hyn, yn sgîl yr hinsawdd ariannol, mae'r gwasanaeth o'r farn y dylid diddymu'r cyfraniad yma o arian craidd y gwasanaeth plant i Cymorth i Ferched.

Mae'n debygol y bydd barn fod yr argymhelliad yma yn cael ei weld fel torri gwasanaeth, ond hyd yn oed heb y cyfraniad yma ni fyddai cyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Adran tuag at blant sydd yn byw mewn sefyllfa trais yn y cartref yn newid. Mae'r cyfrifoldeb i asesu anghenion, ymchwilio materion diogelu a darparu gwasanaethau i'r teulu yn aros gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae Cymorth i Ferched Bangor yn derbyn arian sylweddol drwy ffynhonellau eraill ac yn hanesyddol mae Gwynedd, yn wahanol i awdurdodau eraill, wedi bod yn rhoi cyfraniad o arian craidd gwasanaeth trwy gytundeb i'r mudiad. Mae'r gwasanaeth o'r farn na fyddai unrhyw effaith ar gyfrifoldebau statudol y Cyngor drwy ddiddymu'r cytundeb. Mae wedi bod yn anodd derbyn gwybodaeth ynglyn a chanlyniadau i blant unigol drwy'r gwasanaeth yma ac er fod cyswllt uniongyrchol gyda phlant a phobl a ifanc sydd unai yn byw neu wedi byw mewn sefyllfa trais yn y cartref, ychydig iawn yw'r dystiolaeth fod yr ymyrraeth yn gwella ansawdd bywyd unigolion. Nid yw diddymu'r gwasanaeth yma yn newid dim ar gyfrifoldebau partneriaid i adnabod a chyfeirio pryderon amddiffyn plant.

Yn sgil yr angen i asesu pob cyllideb am werth am arian, mae'r gwasanaeth o'r farn fod dadgomisiynu'r gwasanaeth yma yn opsiwn sydda risg isel ynghlwm â fo.

| | |
|---|---|
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?** | Amlinellol *nes bod penderfyniad cabinet ym Mis Gorffennaf 2014.* |
| **Swm i'w arbed** | £20,060 |

**Ar gychwyn pa chwartrer o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**

Mawrth 2015

| |
|---|
| **Effaith ar Bobl Gwynedd**<br>Ychydig o effaith o risg isel |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi** |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb** |
| **Effaith ar Staff**<br>Ni rhagwelir unrhyw effaith ar staff Gwasanaeth plant a cefnogi teuluoedd. |
| **Effaith Gofodol**<br><br>Dim. |